

Mae'r trosolwg hwn yn rhoi crynodeb manwl o'r cwrs MA Actio ar gyfer Llwyfan, Sgrîn a Radio fel y'i cynigir o fis Medi 2019. A fyddech cystal â nodi er bod y wybodaeth yn adlewyrchu'r rhaglen a gynigir hyd yma, gall gael ei haddasu a'i newid mewn blynyddoedd i ddod. Ymgynghorir bob amser â myfyrwyr ynglŷn â newidiadau o'r fath a bydd manylion ar gael i ymgeiswyr sydd â chynigion. Er mwyn symud drwy'r cwrs bydd angen i'r myfyrwyr fel arfer lwyddo ym mhob modiwl ac ennill 180 o gredydau.

Rhan 1	Rhan 2
Sgiliau Actio 1 20 credyd	Perfformiad Cyhoeddus Annibynnol (IPP) 60 credyd
Sgiliau Actio 2 20 credyd	
Sgiliau Llais 20 credyd	
Sgiliau Symud 20 credyd	
Perfformiad Cyhoeddus 40 credyd	

RHAN UN

Sgiliau Actio 1

Credydau: 20

Asesiad: 4 Gwerthusiadau Parhaus (25%, 25%, 25%, 25%)

Elfen 1:

Cyfres o sesiynau ymarferol a rihysals wedi'u bwriadu i baratoi myfyrwyr ar gyfer: i) clyweliadau proffesiynol ar gyfer theatr a theledu; ii) rhoi cyflwyniadau, a gynhelir gerbron cynulleidfa wadd o weithwyr proffesiynol mewn theatrau yng Nghaerdydd a Llundain

Elfennau 2-4:

Dosbarthiadau ymarferol, gweithdai a rihysals sy'n creu'r amgylchedd gweithio lle bydd yr actor yn ymchwilio heriau, cyfleoedd a hanfodion i) testun penodol gyda phwyslais penodol ar ddatblygu cymeriad, ii) a gynigir drwy berfformiad digymell ac yn y fan a'r lle a iii) sydd ymhlyg mewn testun Shakespearidd a dwys.

Sgiliau Actio 2

Credydau: 20

Asesiad: 3 Gwerthusiadau Parhaus (40%, 40%, 20%)

Elfennau 1 a 2:

Drwy amgylchedd dysgu ymarferol bydd myfyrwyr yn ymchwilio'r heriau, cyfleoedd a gofynion penodol sydd ymhlyg mewn actio i) ar gyfer y sgrin ac ii) ar gyfer radio.

Sgiliau Llais

Credydau: 20

Asesiad: Perfformiad ac Asesiad (70%), Gwerthusiadau Parhaus (30%)

Elfen 1:

Bydd dosbarthiadau yn dechrau gyda chyflwyniad trylwyr i'r llais a gwaith testun - gan symud ymlaen i safon y dechneg sy'n ddisgwyliedig gan actor proffesiynol. I ddechrau bydd y cwrs yn canolbwyntio ar gael gwared ar arferion corfforol annefnyddiol cyn galluogi'r actor i archwilio ac ymestyn defnydd ei lais ac iaith mewn paratoad ar gyfer hyfforddi ef neu hi i'w defnyddio'n effeithiol mewn perfformiad heb oruchwyliaeth, yn cynnwys gwaith ar dafodiaith ac acen.

Elfen 2:

Cyfres o ddsbarthiadau lle bydd y pwyslais ar sgiliau corfforol, techneg canu, defnydd priodol ar anadl a strwythur sain a gallu cerddorol. Rhoddir cyfle i'r myfyrwyr ddatblygu techneg canu cadarn drwy waith grŵp a chorws tra'n datblygu repertoire unigol, ynghyd â dealltwriaeth o ofynion perfformio penodol a wneir gan y theatr gerddorol broffesiynol. Yn hollbwysig, rhoddir y sgiliau i'r myfyrwyr barhau â'u datblygiad proffesiynol ei hunain drwy nodi, gwerthuso a defnydd proffesiynol o arfer gorau a methodolegau arloesol.

Sgiliau Symud

Credydau: 20

Asesiad: 3 Gwerthusiadau Parhaus (100%, Llwyddo/Methu, Llwyddo/Methu)

Elfen1:

Cyfres o ddsbarthiadau ymarferol i ymchwilio adnoddau personol y myfyriwr ar gyfer symud rhydd a mynegiannol a sut i'w defnyddio'n effeithiol wrth gyfathrebu yn y theatr. Bydd myfyrwyr yn archwilio ac yn datblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd agwedd gorfforol hyfforddiant a bywyd actor, gan ganiatáu iddynt weithio yn ôl eu menter eu hunain ar y lefel uchaf.

Elfen 2:

Cyflwyniad i Dechneg Alexander, gan symud i lefel o gymhathiad a chymhwysiad y gellir ei defnyddio'n rhwydd mewn perfformiad creadigol. Bydd myfyrwyr yn ceisio canfod cyfleoedd lle gallai technegau alinio uwch ddylanwadu ar y gwaith a wneir mewn modiwlau eraill ac yn y dyfodol.

Elfen 3:

Cyflwyniad i dechnegau ymladd llwyfan, yn cynnwys trin cleddyfau ac ymladd heb arfau.

Perfformiad Cyhoeddus

Credydau: 40

Asesiad: 2 Gwerthusiadau Parhaus (50%, 50%)

Rhoddir cyfle i'r myfyriwr rihyrsio a pherfformio dan gyfarwyddyd ac amodau cynhyrchiad proffesiynol, ac yn aml dan lygad cyflogwyr posibl. Perfformir ystod eang o ddeunyddiau mewn

amrywiaeth o gyd-destunau perfformio, sy'n gofyn am gymhathiad a chyfuniad chwim o'r sgiliau sy'n deillio o fodiwlau eraill tra'n defnyddio dirnadaeth a barn briodol. Mae'r rhaglen o gynyrchiadau ar gyfer y flwyddyn, a restrir isod, yn rhoi syniad o'r repertoire heriol ac amrywiol yr eir i'r afael â hi:

Y rhaglen o gynyrchiadau ar gyfer 2020/2021:

Yen Gan Anna Jordan
In The Blood Gan Suzan-Lori Parks
The Moors Gan Jen Silverman
Twelfth Night Remembered Gan William Shakespeare
Statements After an Arrest Gan Athol Fugard

All That I Am Gan Dafydd James
Everybody Gan Branden Jacobs-Jenkins
The Writer Gan Ella Hickson

The Ache Gan Rob Evans
The Toll Gan Chinonyerem Odimba
The Electric Gan Vickie Donoghue
Terroir Gan Jennifer Lunn

Uncle Vanya Gan Anton Chekhov
Anna Karenina Gan Leo Tolstoy
Wife Gan Sam Adamson
A Doll's House Gan Henrik Ibsen

Perfformiad Cyhoeddus Annibynnol (IPP)

Credydau: 60

Asesiad: Perfformiad (50%), Cyflwyniad (25%), Arfer Myfyriol (25%)

Elfen 1:

Bydd y myfyrwyr yn dechrau, datblygu a chynhyrchu perfformiad 30 munud o hyd ar gyfer cynulleidfa wadd, sy'n cydymffurfio â set o feini prawf. Bydd y rhan fwyaf o'r gwaith paratoi a rihysal ar gyfer yr IPP yn digwydd fel arfer yn ystod misoedd yr haf (Gorffennaf-Medi) ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Fe fydd cyfle i berfformio'r gwaith yng ngofodau theatr y Coleg ym mis Medi.

Elfen 2:

Bydd myfyrwyr yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am wireddu'r cynhyrchiad, gan gynnwys cyllidebau, rheoli cynhyrchiad, cynllunio, marchnata a chyhoeddusrwydd.

Elfen 3:

Bydd gofyn i'r myfyrwyr gadw llyfr nodiadau cynhyrchiad sy'n cofnodi datblygiad yr IPP o'i darddiad i'w wireddiad terfynol mewn perfformiad.

Efallai y gofynnir i'r myfyrwyr drafod eu gwaith gyda phanel. Dylid ystyried y drafodaeth hon fel cyfle i ehangu ar y gwerthusiad beirniadol ysgrifenedig.

Bydd myfyrwyr yn cael cefnogaeth gan diwtor penodedig; cefnogaeth cynhyrchu ar gyfer perfformio yn lleoliadau CBCDC; a thiworialau ar ysgrifennu, dyfeisio a'r cyfleoedd ar gyfer datblygu potensial yr IPP yn y dyfodol.